GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr

# Helpu Eich Plentyn i Ddysgu Am Iaith
# Therapi Iaith a Lleferydd

---

Mae'r daflen hon yn rhoi rhai enghreifftiau o sut y gall rhieni a gofalwyr helpu i ddatblygu siarad eu plentyn.

**Gall dysgu siarad fod yn anodd ac mae'n cymryd amser**

**Chwarae gyda'ch plentyn:**



- Ewch lawr i lefel eich plentyn e.e. eistedd ar y llawr wrth chwarae
- Ewch i chwarae gyda'r pethau y mae gan eich plentyn ddiddordeb ynddynt
- Ceisiwch osgoi'r pethau fydd yn tynnu sylw eich plentyn wrth chwarae e.e., diffoddwch y teledu a trowch eich ffôn i ffwrdd


**Siaradwch â'ch plentyn:**

- Ceisiwch gadw eich brawddegau yn fyr ac yn syml
- Siaradwch am bethau wrth iddyn nhw ddigwydd e.e.
  - ♦ wrth olchi dwylo dywedwch "rydym ni'n golchi ein dwylo",
  - ♦ wrth fwyta swper dywedwch "mae mami yn bwyta"
- Ceisiwch osgoi gofyn gormod o gwestiynau i'ch plentyn e.e., "beth ydy hwnna", "pa liw ydy hwnna"?
- Ceisiwch osgoi gofyn i'ch plentyn gopïo neu ailadrodd geiriau



**Cofiwch:**

- Canmolwch ymdrechion eich plentyn i ynganu geiriau



- Byddwch yn amyneddgar
- Mwynhewch!

**Gwefannau defnyddiol**

www.talkingpoint.org.uk

www.afasic.org.uk

http://www.speechandlanguage.org.uk/

www.hanen.org/Helpful-Info/Parent-Tips

Gobeithio y bydd y daflen hon yn ddefnyddiol i chi.  Rydym yn croesawu eich barn, sylwadau a’ch profiadau am Therapi Iaith a Lleferydd.




**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**

Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd
Ystafell 102
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Adeilad y Pencadlys
Ysbyty Sant Cadog
Lodge Road
Caerlleon
NP18 3XQ

Ebost: abb.speechandlanguageadminhub@wales.nhs.uk
Ffôn: **01633 431615**
(8.00am i 4.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)

neu, ewch i'n gwefan :
http://www.sltgwentabhb.wales.nhs.uk

Speech and Language Therapy in Gwent
..transforms lives